Annwyl Gwsmer

**Swyddfa Bost® Casnewydd**
**19 Sovereign Arcade, Canolfan Kingsway, Casnewydd, NP20 1EB**

**Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy’n ysgrifennu i roi gwybod i chi ein bod yn bwriadu symud Swyddfa Bost Casnewydd i’r siop wag gerllaw yn 174-176 Stryd Doc Uchaf, Casnewydd, NP20 1DY, lle byddai’n cael ei rhedeg gan ein Partner Manwerth newydd. Ni fyddai newid i’r gwasanaethau i gwsmeriaid, a cheid oriau agor estynedig a fyddai’n cynnwys dydd Sul.

**Pam rydym yn cynnig y newid hwn?**

Mae’r newid hwn yn rhan o’r gwaith o foderneiddio ein rhwydwaith o ganghennau. Credwn taw’r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yng Nghasnewydd yw trwy gael partner manwerth wedi’i ddewis yn ofalus, ac rydym yn ffyddiog taw ein cynllun arfaethedig yw’r ffordd orau o ddiogelu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer y gymuned. Mae’r mwyafrif helaeth o’n 11,600 o ganghennau Swyddfa’r Post, mawr a bach, yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus fel hyn gyda phartneriaid manwerth a chredwn taw dyma’r ffordd orau o gadw Swyddfeydd Post mewn mannau siopa ac yng nghanol cymunedau lle maent yn chwarae rhan bwysig yn yr economi leol.

Ynghyd a moderneiddio ein rhwydwaith o ganghennau, rydym yn dal i ddatblygu ein gwasanaethau er mwyn bod yn berthnasol i gwsmeriaid. Yn ogystal â darparu gwasanaeth post traddodiadol a gwasanaethau eraill, mae rhwydwaith Swyddfa'r Post yn casglu a dychwelyd siopa ar-lein, yn cynnig gwasanaeth ‘clicio a chasglu’ ar gyfer arian tramor mewn dros 3,500 o ganghennau, a bancio beunyddiol i’r rhan fwyaf o gwsmeriaid banciau’r DG; nawr gall 99 y cant o gwsmeriaid bancio personol y DG a 95 y cant o gwsmeriaid busnes wneud eu bancio mewn unrhyw un o’r canghennau.

Byddai’r cyfan o’n dewis eang o wasanaethau ar gael yn y gangen newydd yng Nghasnewydd. Am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ni allwn ar hyn o bryd gadarnhau a fydd peiriant arian ar gael yn y gangen newydd ai peidio. Mae darparu peiriant arian yn amodol ar arolwg gan ein darparwr peiriannau arian, ystyriaethau gweithredol a chael caniatâd cynllunio perthnasol. Gall cwsmeriaid bancio personol a chwsmeriaid Cyfrif Cerdyn Swyddfa’r Post ddal i godi arian am ddim wrth y prif gownter. Ar y llaw arall, mae gan Swyddfa Bost Commercial Road beiriant arian y tu allan, tua 0.5 milltir i ffwrdd yn 44-45 Commercial Road, Casnewydd, Gwent, NP20 2PE.

**Ynglŷn â’n partner manwerth**

Mae ein Partner Manwerth newydd yn ystyried fod rhwydwaith Swyddfa'r Post yn rhan hanfodol o wasanaethau cymuned ac mae wedi ein bodloni y gall redeg y gangen yng Nghasnewydd yn llwyddiannus, trwy ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, mewn awyrgylch modern, gydag oriau agor estynedig. Byddai’r holl staff a gyflogid gan ein Partner Manwerth newydd yn y gangen newydd wedi derbyn hyfforddiant o’r safon uchaf mewn perthynas a chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal a materion gweithredol.

Mae ein Partner Manwerth newydd yn bwriadu symud i adeilad mwy o faint a fyddai’n cael ei adnewyddu’n llwyr, a byddai’n gosod Swyddfa Bost fodern newydd wrth ochr gwasanaeth y siop gyfleustra.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

**Cangen Swyddfa Bost newydd Casnewydd**
Bydd y gangen newydd yn olau a modern gyda chynllun agored a fydd yn cynnwys mynedfa wastad a drysau awtomatig wrth y fynedfa.

Darperir arwyddion cyfeiriad o'r drws wrth y fynedfa i'r lle bydd y Swyddfa Bost, mewn man penodol yng nghefn y siop ar yr ochr chwith. Bydd yna saith man gwasanaeth – a hynny'n seiliedig ar y busnes nawr a'r hyn a ragwelir yn y dyfodol; pedwar â chynllun agored, dau â sgrin draddodiadol a fydd hefyd yn darparu gwasanaethau arian teithio, a man gwasanaeth cynllun agored wrth gownter y siop. Mae mannau gwasanaeth a chynllun agored yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus ar draws Rhwydwaith Swyddfa'r Post yn lle'r mannau gwasanaeth mwy traddodiadol. Mae yna sgrin o hyd, ond mae honno'n is er mwyn cynnig gwasanaeth mwy personol a sgwrsio cyfrinachgar pan fo angen. Bydd y man gwasanaeth wrth dil y siop yn cynnig dewis dethol o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post, heb i gwsmeriaid orfod ymuno a'r prif giw. Bydd ar gael am 45.5 o oriau ychwanegol yn wythnosol.

Mae gennym safonau llym i wneud yn siŵr fod popeth yn hwylus i'n holl gwsmeriaid, ac mae ein cynlluniau ar gyfer y gangen newydd yn cynnwys drysau awtomatig newydd wrth y fynedfa, llwybrau lletach, cownteri isel, padiau PIN a dolenni clyw.

Mae cofeb ryfel yn Swyddfa Bost Casnewydd i goffau ein cydweithwyr a oedd yn gweithio i'r sefydliad pan oedd yn cael ei adnabod fel y Swyddfa Bost Gyffredinol (GPO), a oedd yn cynnwys y Post Brenhinol fel y mae heddiw. Rydym yn gweithio gyda'r Post Brenhinol i gael hyd i'r lle mwyaf addas i adleoli'r gofeb fel gall aelodau o'r cyhoedd ddal i ddangos parch i'n cydweithwyr a aberthodd eu bywydau. Rydym yn sylweddoli pa mor bwysig yw cofebion rhyfel ac, unwaith y down i gytundeb, caiff yr adleoliad ei wneud yn ofalus a theimladwy, gan gynnwys seremoni ailgysegru.

**Beth nesaf?**
Rydym yn dechrau Cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol a hoffem gael eich barn am y cynllun. Mae newid y ffordd y mae'r gangen yn cael ei rhedeg – gan bartner manwerth yn hytrach na gennym ni yn uniongyrchol - yn benderfyniad masnachol i Swyddfa'r Post Cyf. ac felly nid ydym, yn chwilio am adborth ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth a sylwadau, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor hawdd yw cyrraedd y lleoliad newydd arfaethedig?
- A yw'n hawdd i chi fynd i mewn i'r adeilad newydd ac i symud o gwmpas y tu mewn?
- Ydych chi'n credu y gallai unrhyw faterion cymunedol eraill ddylanwadu ar neu gael eu dylanwadu gan y symud arfaethedig?
- Pe bai'r symud yn digwydd, a oes unrhyw beth y gallem ei wneud fel ei bod yn haws i gwsmeriaid?

Gallwch rannu eich sylwadau am y newid arfaethedig wrth lenwi ein holiadur ar-lein sy'n hawdd a chyfleus, trwy'r ddolen isod. Wrth fynd i mewn i'r safle gallwch ddefnyddio'r ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgynghoriad ar gyfer gangen hon naill ai yn ôl enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen: **019632**

postofficeviews.co.uk

Os oes gennych sganiwr QR ar eich ffôn symudol, y cyfan sydd raid ei wneud yw sganio yma:

Gallwch hefyd gynnig eich sylwadau i ni yn y ffyrdd a ganlyn:

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments
**(Dyma'r cyfeiriad llawn.**
**Does dim angen manylion pellach)**

Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn testun: 03457 22 33 55

**Dyddiadau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol:**

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | **4 Gorffennaf 2018** |
| Diwedd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol | **15 Awst 2018** |
| Mis arfaethedig y newid | **Mis Hydref 2018** |

Bydd Swyddfa'r Post Cyf. yn cynnal fforwm i gwsmeriaid yn ystod yr wythnosau nesaf, ac mae croeso i bawb ddod yno i glywed mwy am y newid newydd. Rydym ar hyn o bryd yn gwneud y trefniadau terfynol ar gyfer y digwyddiad hwn a bydd gwybodaeth bellach ar gael yn y gangen.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Gwneir yr hysbysiad hwn yn unol a'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.

Rwyf wedi cynnwys gwybodaeth am yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar diwedd y llythyr hwn ac mae copi llawn ar gael ar ein gwefan. Nawr bydd posteri a thaflenni yn cael eu harddangos yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am yr argymhelliad a gofyn iddynt am eu sylwadau.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun. Bydd unrhyw wybodaeth a dderbyniwn yn cael ei hystyried wrth i ni baratoi ein cynlluniau terfynol ar gyfer y gangen newydd. Rwyf wedi amgáu taflen wybodaeth sydd yn rhoi rhagor o fanylion am y lleoliad newydd. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad byddwn yn ysgrifennu at unrhyw un sydd wedi darparu adborth i'r ymgynghoriad er mwyn ymateb i'r prif faterion a godwyd ac i esbonio ein cynlluniau terfynol.

Yr eiddoch yn gywir

**Roger Gale**
**Cyfarwyddwr y Rhwydwaith a Gwerthiannau**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

Sylwch, os gwelwch yn dda, fod eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, heb gynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Felly, caniatewch ddigon o amser i'ch sylwadau gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgynghori oherwydd ni allwn ystyried adborth a gawn ar ôl y dyddiad cau.

**I gael y wybodaeth yma mewn print mwy, ar sain neu mewn braille, ffoniwch 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

| Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Casnewydd | | |
|---|---|---|
| | **Y lleoliad presennol** | **Y lleoliad newydd arfaethedig** |
| **Cyfeiriad** | 19 Sovereign Arcade<br>Canolfan Kingsway<br>Casnewydd<br>NP20 1EB | 174-17 Stryd Doc Uchaf<br>Casnewydd<br>NP20 1DY |
| **Oriau Agor y Swyddfa Bost** | Llun 09:00 – 17:30<br>Maw 09:30 – 17:30<br>Mer 09:00 – 17:30<br>Iau 09:00 – 17:30<br>Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 17:30<br>Sul Ar gau | Llun 09:00 – 17:30<br>Maw 09:00 – 17:30<br>Mer 09:00 – 17:30<br>Iau 09:00 – 17:30<br>Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 17:30<br>Sul Ar gau |
| **Oriau agor newydd Swyddfa'r Post wrth gownter y siop** | Llun-Sad 06:00 – 21:00<br>Sul 10:00 – 16:00 | |
| **Cynhyrchion a Gwasanaethau** | Byddai'r un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd. Am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ni allwn ar hyn o bryd gadarnhau a fydd peiriant arian ar gael yn y gangen newydd ai peidio. Mae darparu peiriant arian yn amodol ar arolwg gan ein darparwr peiriannau arian, ystyriaethau gweithredol a chael caniatâd cynllunio perthnasol. | |
| **Mannau gwasanaeth** | Ceid saith man gwasanaeth, sef dau â sgrin, pedwar â chynllun agored a man gwasanaeth Swyddfa'r Post wrth gownter y siop. Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol. | |
| **Mynediad a chyfleusterau** | Byddai'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad, a byddai yno ddrysau awtomatig. Byddai cownteri gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel a dolenni clyw ar gael. | |
| **Pa mor bell yw'r adeilad?** | Tua 305 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. | |
| **Trafnidiaeth a pharcio yn yr adeilad newydd arfaethedig** | **Parcio**<br>Mae maes parcio aml-lofftog lle codir tâl yng Nghanolfan Siopa Rhodfa'r Brodyr â lle i 350 o gerbydau a 16 lle ar gyfer pobl anabl. Mae'r pellter thwng y maes parcio a'r adeilad arfaethedig tua 165 metr.<br><br>Mae pedwar lle parcio penodol i bobl anabl yn Stryd Doc Uchaf, gyferbyn â'r adeilad arfaethedig.<br><br>**Bysiau**<br>Mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn ôl ac ymlaen o'r cyffiniau. Mae bysiau'n aros tua 100 metr i ffwrdd o'r adeilad arfaethedig. | |
| **Y Siop** | Hwylustod | |
| **Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dechrau** | 4 Gorffennaf 2018 | |
| **Yr Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol yn dod i ben** | 15 Awst 2018 | |
| **Mis y newid arfaethedig** | Mis Hydref 2018 | |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

**Beth yw Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned?**
Mae Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned yn ganllawiau rydym yn eu dilyn. Maent yn esbonio sut, a phryd, y byddwn yn dweud wrthych am newidiadau i'ch gwasanaethau Swyddfa'r Post lleol. Rydym wedi gweithio ar y canllawiau hyn gyda'r corff gwarchod statudol annibynnol i ddefnyddwyr - y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

**Pa fath o newidiadau sy'n cael eu cynnwys?**
Gwybodaeth ynglŷn â phryd rydym yn bwriadu symud neu gau un o'n canghennau neu wasanaethau allgymorth. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phan fo cangen wedi cau'n annisgwyl oherwydd llifogydd neu dân, er enghraifft.

**Pwy sy'n clywed gennym?**
Chi a'ch cynrychiolwyr etholedig lleol (fel ASau, awdurdodau lleol neu gynghorau).

**Sut fyddwn yn dweud wrthych am yr hyn sy'n digwydd**
Os oes newid– fel agor cangen newydd, cau cangen dros dro neu newid yr oriau agor – yna byddwn yn rhoi gwybod ichi trwy osod posteri yn y Swyddfa Bost. Os ydym yn bwriadu symud Swyddfa Bost, neu gau cangen yn barhaol, yna byddwn yn gosod posteri ac yn cyflwyno llythyrau yn y gangen yn ogystal ag ysgrifennu at eich cynrychiolwyr. Bydd gennym ddatganiad newyddion a bydd yn hawdd cael hyd i'r wybodaeth berthnasol ar ein gwefan.

**Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?**
Rhoddwn wybod i chi am unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl. Ambell waith, bydd y newid allan o'n dwylo ond ceisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd. Gwnawn ein gorau i wneud yn siŵr eich bod yn cael pedair wythnos o rybudd cyn bod unrhyw beth yn digwydd. Os byddwn yn ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd neu'n masnachfreintio cangen â rheolaeth uniongyrchol yn ei lleoliad cyfredol, byddwn yn gofyn am eich sylwadau. Os ydym yn mynd i adleoli neu gau Swyddfa Bost yn barhaol, ceir 'cyfnod ymgynghori' a fydd yn para am chwe wythnos. Mae hyn yn golygu y bydd gennych amser i rannu eich barn â ni.

**Mae'n hawdd rhoi gwybod i ni am yr hyn rydych yn ei feddwl ...**
Rydym eisiau clywed eich barn chi a'ch cynrychiolwyr am unrhyw newid. I wneud yn siŵr ei bod yn hawdd i chi roi gwybod i ni, gallwch weld ein holl fanylion cyswllt ar ein posteri a llythyrau. Gallwch gysylltu â ni trwy ein Canolfan Ymgynghori neu drwy ebost neu lythyr neu dros y ffôn.

**Sut fyddwch chi'n cael gwybod am ein cynlluniau terfynol?**
Rhoddwn wybod i chi mewn cynifer o ffyrdd â phosibl. Bydd yna bosteri yn y gangen neu'n lleol i roi gwybod i gwsmeriaid am yr hyn sy'n digwydd. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol a bydd yr wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Os rhowch wybod i ni beth yw'ch barn, gwnawn yn siŵr eich bod yn gwybod am ein cynlluniau terfynol, naill ai ar ein Canolfan Ymgynghori neu drwy ysgrifennu atoch neu mewn swyddfeydd post.

**Beth allwch ei wneud os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned?**
Os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn yr Egwyddorion, cysylltwch â ni i esbonio pam.

I weld yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned yn llawn, ewch i'n gwefan yn postofficeviews.co.uk.